



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 Rhif 709 (Cy.76)

2004 No. 709 (W.76)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

SOCIAL CARE, WALES

Gorchymyn Cyngor Gofal Cymru
(Pennu Gweithwyr Cymdeithasol o
dan Hyfforddiant) (Cofrestru) 2004

The Care Council for Wales
(Specification of Student Social
Workers) (Registration) Order
2004

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu gweithwyr cymdeithasol o dan hyfforddiant at ddibenion adran 56 o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae Adran 56 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Gofal Cymru gadw cofrestr o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad arall a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru trwy orchymyn.

This Order specifies student social workers for the purposes of section 56 of the Care Standards Act 2000. Section 56 requires the Care Council for Wales to maintain a register of social workers and social care workers of any other description specified by the National Assembly for Wales by order.

2004 Rhif 709 (Cy.76)**2004 No. 709 (W.76)****GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU****SOCIAL CARE, WALES**

Gorchymyn Cyngor Gofal Cymru
(Pennu Gweithwyr Cymdeithasol o
dan Hyfforddiant) (Cofrestru) 2004

The Care Council for Wales
(Specification of Student Social
Workers) (Registration) Order
2004

Wedi'u gwneud

10 Mawrth 2004

Made

10th March 2004

Yn dod i rym

1 Ebrill 2004

Coming into force

1st April 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 56(1)(b) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(a) ac ar ôl ymghynghori â Chyngor Gofal Cymru(b), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the power conferred upon it by section 56(1)(b) of the Care Standards Act 2000(a) and having consulted the Care Council for Wales(b), hereby makes the following Order:

Enwi, cychwyn a dehongli.**Citation, commencement and interpretation**

1.-(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Gofal Cymru (Pennu Gweithwyr Cymdeithasol o dan Hyfforddiant) (Cofrestru) 2004 a daw i rym ar 1 Ebrill 2004.

1. -(1) This Order may be cited as the Care Council for Wales (Specification of Student Social Workers) (Registration) Order 2004 and comes into force on 1st April 2004.

(2) Yn y Gorchymyn hwn -

(2) In this Order -

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Gofal Cymru;

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Care Standards Act 2000;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000;

"the Council" ("*y Cyngor*") means the Care Council for Wales;

ystyr "gweithiwr cymdeithasol o dan hyfforddiant" ("*student social worker*") yw person sy'n cymryd rhan mewn cwrs a gymeradwywyd gan y Cyngor o dan adran 63 o'r Ddeddf ar gyfer personau sydd am fod yn weithwyr cymdeithasol.

"student social worker" ("*gweithiwr cymdeithasol o dan hyfforddiant*") means a person participating in a course approved by the Council under section 63 of the Act for persons wishing to become social workers.

Pennu gweithwyr cymdeithasol o dan hyfforddiant**Specification of student social workers**

2. Pennir gweithwyr cymdeithasol o dan hyfforddiant drwy hyn at ddibenion adran 56(1)(b) o'r Ddeddf (gofyniad i'r Cyngor gadw cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol penodedig).

2. Student social workers are hereby specified for the purposes of section 56(1)(b) of the Act (requirement for the Council to maintain a register of specified social care workers).

(a) 2000 p.14. Rhoddir y pŵer i'r Gweinidog priodol a ddiffinnir yn adran 121(1) o'r Ddeddf fel "the Assembly" mewn perthynas â Chymru. *Gweler* adran 5(b) o'r Ddeddf am y diffiniad o "the Assembly".

(b) *Gweler* adran 56(4) o'r Ddeddf am y gofyniad i ymghynghori.

(a) 2000 c.14. The power is conferred upon the appropriate Minister which is defined in section 121(1) of the Act as "the Assembly" in relation to Wales. *See* section 5(b) of the Act for the definition of the Assembly.

(b) *See* section 56(4) of the Act for the requirement to consult.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

10 Mawrth 2004

10th March 2004

John Marek

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p. 38.

(a) 1998 c. 38.

2004 Rhif 709 (Cy.76)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

Gorchymyn Cyngor Gofal Cymru
(Pennu Gweithwyr Cymdeithasol o
dan Hyfforddiant) (Cofrestru) 2004

2004 No. 709 (W.76)

SOCIAL CARE, WALES

The Care Council for Wales
(Specification of Student Social
Workers) (Registration) Order
2004

© Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.00


W38/03/04

ON

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090895-3



9 780110 908953